| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **5 Tachwedd 2013** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych – Drafft Terfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi bod yn gweithio ers mis Chwefror ar ddatblygu strategaeth gyntaf Sir Ddinbych ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn unol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu'r economi lleol. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori ffurfiol rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref er mwyn cwblhau'r drafft terfynol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Grwp Tasg a Gorffen wedi adolygu'r adborth i'r ymgynghoriad a llunio drafft terfynol o'r Strategaeth a'r Cynllun Darparu ac mae rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Cyngor yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen i baratoi'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Cynllun Darparu sydd wedi'u hatodi yn Atodiadau 1 a 2, a chymeradwyo eu gweithredu.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Datblygu'r Economi Lleol fel un o'r saith blaenoriaeth gorfforaethol. Yn ystod datblygu'r Cynllun Corfforaethol, bu i'r trigolion nodi bod adfywio'r economi leol yn fater allweddol ac yn sail gadarn i ddatblygiadau eraill.

4.2 Ers mis Chwefror, mae Grŵp Tasg a Gorffen sy'n cynnwys Aelodau, Swyddogion a Phartneriaid wedi bod yn datblygu Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych. Nod y strategaeth yw egluro sut bydd y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ar gyfer datblygu'r economi.

4.3 Cynhaliodd y Grŵp Tasg a Gorffen un ar ddeg o gyfarfodydd rhwng mis Chwefror a mis Mehefin gyda sawl gweithdy ymarferol yn cyfrannu

at ganfod materion i fynd i'r afael â nhw. Derbyniodd yr Aelodau amrywiaeth o sylwadau gan Gynghorwyr o bob grŵp gwleidyddol a Grwpiau Ardal Aelodau.

4.4 Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cyngor ddrafft ymgynghori o'r strategaeth a chynllun ymgynghori cysylltiol. Yn dilyn ceisiadau, ymestynnwyd dyddiad cau ymgynghoriad y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned tan ganol mis Hydref, a bydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cyfarfod ddwywaith eto i ystyried yr adborth ymgynghori a gafwyd.

4.5 Mae adborth gan fusnesau, preswylwyr a sefydliadau partner wedi bod yn gadarnhaol, a'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno mai'r Weledigaeth, Egwyddorion a Themâu yn y strategaeth yw'r rhai cywir i ganolbwyntio arnynt. Mae nifer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori wedi galluogi'r Grŵp Tasg a Gorffen i fireinio'r camau gweithredu arfaethedig a gwella'r strategaeth ymhellach. Mae adborth yr ymgynghoriad ar y strategaeth ac ymateb y Grŵp Tasg a Gorffen i hyn wedi'i atodi yn Atodiad 3.

4.6 Mae newidiadau allweddol i'r Strategaeth ar ôl yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- Cryfhawyd y pwyslais ar waith partneriaeth
- Mae'r iaith a diwylliant Cymraeg wedi'u hychwanegu fel egwyddor sylfaenol ac mae sylwebaeth ar effeithiau a chyfleoedd wedi'u cynnwys trwy'r Strategaeth
- Cydnabod amgylchedd naturiol Sir Ddinbych fel ased twf economaidd
- Cyfeirio yn gryfach at gynlluniau isadeiledd rhanbarthol a chenedlaethol
- Ychwanegu Amaethyddiaeth, diwydiannau Creadigol ac Iechyd a Gofal fel cyfleoedd twf i'w harchwilio
- Adolygu'r camau gweithredu yn Thema 4: Gweithlu Medrus o Ansawdd Uchel
- Nifer lai o themâu / camau gweithredu yn Thema 5 a chyfeirio yn gryfach at y Bartneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig
- Adolygu ac ailysgrifennu Thema 6 i wella eglurder pwrpas a chamau gweithredu
- Newidiadau i lywodraethu'r Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol i gynnwys cynrychiolydd o bob un o'r 3 Pwyllgor Archwilio

4.7 Mae'r Strategaeth wedi ei datblygu drwy ganolbwyntio ar fanteision a chanlyniadau. Cytunodd y Grŵp Tasg a Gorffen y dylai trigolion lleol yn y pen draw weld y budd o ddatblygu'r economi lleol. Canlyniad cyffredinol y strategaeth yw:

***Mae Sir Ddinbych yn sir gyda lefelau uchel o gyflogaeth a lefelau da o incwm ymhob tref a chymuned***

4.8 Cadarnhawyd mai Datganiad Gweledigaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych yw:

***Datblygu Cyfleoedd, Creu Hyder***

***Cydweithio i wneud Sir Ddinbych yn fan lle mae:***

- ***Busnesau, sefydledig a newydd, yn tyfu a ffynnu***
- ***Ein trefi a'n cymunedau yn brysur ac yn ffynnu***
- ***Trigolion yn mwynhau ansawdd da o fywyd ac yn cyfrannu at yr economi leol.***

4.9 Bydd angen mynd i'r afael ag ystod o ffactorau craidd er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon. Mae'r rhain wedi eu nodi fel meysydd i'w blaenoriaethu ac yn ffurfio strwythur craidd y Strategaeth. Yn dilyn yr ymgynghoriad, maent wedi'u cadarnhau fel:

- *Yr Isadeiledd cywir ar gyfer **twf***
- *Busnesau sy'n cael eu **Cefnogi a'u Cysylltu***
- *Gwneud y gorau o **Gryfderau/Cyfleoedd Economaidd***
- ***Gweithlu Medrus o Ansawdd Da***
- ***Trefi a Chymunedau Llewyrchus***
- ***Sir Ddinbych wedi ei hyrwyddo'n dda***

4.10 Ar gyfer pob ffactor, mae'r materion, heriau, camau gweithredu a chanlyniadau dymunol wedi'u nodi gyda dangosyddion llwyddiant. Mae adroddiad manwl wedi'i lunio i gyd-fynd â'r Strategaeth, gan gyhoeddi'r gyfres dangosyddion perfformiad a mesuryddion ar gyfer mesur llwyddiant. Mae Atodiad 4 yn crynhoi'r adroddiad, yn tynnu sylw at ganlyniadau, eu dangosyddion cysylltiedig a'n dyheadau ym mhob un o'r meysydd hyn.

4.11 Bydd y Cynllun Darparu perthnasol (Atodiad 2) yn cael ei ddefnyddio gan y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol i drefnu a chyfeirio'r rhaglen prosiectau a gweithgareddau yn y Strategaeth. Mae'r Cynllun Darparu yn nodi'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer y 66 cam gweithredu yn y Strategaeth:

- Disgrifiad Byr
- Blaenoriaeth
- Arweinydd penodedig CSDd
- Canlyniadau a gefnogwyd gan y cam gweithredu
- Manteision disgwyliedig
- Gofynion dechreuol o ran adnoddau
- Partneriaid a nodwyd yn y cam gweithredu
- Graddfeydd amser ar gyfer gweithredu

4.12 Bydd y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn darparu trosolwg o'r ddarpariaeth. Bydd monitro a gwerthuso yn weithgaredd parhaus sy'n rhoi gwybodaeth i gyfrannu at benderfyniadau a galluogi gwneud newidiadau yn ôl yr angen. Drwy gydol ei fywyd, bydd adolygiad blynyddol o'r Strategaeth, ei weithrediad a'i effaith yn cael ei lunio i asesu cynnydd a chanfod

unrhyw newidiadau y bydd eu hangen i sicrhau bod yr Uchelgais cyffredinol yn cael ei wireddu.

4.13 Rôl allweddol ar gyfer y Bwrdd Rhaglen fyddai sicrhau bod y prosiectau a'r gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u rheoli i ddarparu'r buddiannau bwriedig.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Datblygu'r Economi Lleol yn un o flaenoriaethau corfforaethol allweddol y Cynllun Corfforaethol. Mae drafft terfynol y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn nodi'n fanwl sut bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae adborth cyffredinol i'r ymgynghoriad wedi nodi bod hon yn Strategaeth uchelgeisiol, a chodwyd rhai cwestiynau ynglŷn ag a oes gan y Cyngor ddigon o adnoddau i'w chyflawni.

6.2 Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi nodi £2m fel dyraniad tuag at gostau gweithredu Blaenoriaeth Gorfforaethol yr Economi gyda £160mil wedi'i ddyrannu yng nghyllideb 2013/14. Roedd hyn yn ychwanegol i'r dyraniadau blaenorol ar gyfer Adfywio a Chynlluniau Tref ac Ardal. Mae'r cyllid newydd, ynghyd â chyllidebau presennol a chyfleoedd ar gyfer arian grant allanol trwy Gronfeydd Strwythurol yr UE a'r Cynllun Datblygu Gwledig, yn rhoi'r rhan fwyaf o'r arian sydd ei angen i weithredu'r flaenoriaeth. Wrth ddatblygu prosiectau a mentrau bydd y costau yn dod yn fwy amlwg a gellir eu hystyried o fewn cyd-destun Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Mae adborth y cyhoedd ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlygu bod datblygu'r economi lleol yn bwysig ar gyfer trigolion Sir Ddinbych. Ar ôl datblygiad gan Grŵp Tasg a Gorffen ardal / trawsbleidiol oedd hefyd yn cynnwys nifer o sefydliadau partneriaeth, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y Strategaeth ddrafft rhwng Gorffennaf a Hydref. Roedd hyn yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd ar gyfer ymgynghori ac amryw o fudd-ddeiliaid. Paratowyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân, gan gynnwys canlyniadau beirniadaeth allanol a gomisiynwyd i gefnogi'r Cyngor i gynyddu effaith gadarnhaol y Strategaeth ar yr Iaith Gymraeg. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad 5.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae Datblygu'r Economi yn Sir Ddinbych wedi ei nodi yn y Cynllun Corfforaethol fel un o flaenoriaethau'r Cyngor ac mae arian wedi ei neilltuo i ddechrau'r prosiectau. Mae'n rhaid i unrhyw wariant fod o fewn y cronfeydd hyn neu'r cyllidebau presennol.

**9. Beth yw'r risgiau, ac allwn ni wneud rhywbeth i'w lleihau nhw?**

Y prif risgiau sy'n gysylltiedig â darparu'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yw:

- Diffyg amser ac adnoddau (dynol ac ariannol). Mae hyn wedi'i leihau trwy gynnwys datblygiad economaidd lleol fel Blaenoriaeth Gorfforaethol.
- Nad yw prosiectau a gweithgareddau yn darparu'r buddion bwriedig. Bydd hyn yn cael ei liniaru trwy ddefnydd y Bwrdd Rhaglen o'r fethodoleg rheoli prosiect corfforaethol ac adolygiadau rheolaidd o gynnydd / diwygiadau i weithgareddau yn ôl yr angen. Mae gan y Rhaglen strategaeth rheoli risg a bydd risgiau yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risg y Rhaglen.
- Efallai na fydd partneriaid yn cymryd rhan wrth ei ddarparu. Mae hyn wedi'i liniaru i ryw raddau gan weithgaredd ymgysylltu / ymgynghori â budd-ddeiliaid hyd yma. Mae adborth wedi dangos ymateb cadarnhaol ac awydd i gymryd rhan wrth ddarparu. Mae ymglymiad budd-ddeiliaid parhaus yn rhan o gyfrifoldebau aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol a Rheolwr Rhaglen.
- Dibyniaeth ar newidiadau ffafriol yn yr economi cenedlaethol. Mae hyn y tu hwnt i'n rheolaeth i raddau helaeth, ond bydd gweithgareddau monitro economaidd yn galluogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid dechrau ar brosiectau / gweithgareddau penodol, gan gyfyngu ar y risg.

**10. Grym i wneud Penderfyniad:**

Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000


**Swyddog Cyswllt:**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Ffôn: 01824 706061


Atodiadau

1 - Dogfen Strategaeth
2 - Cynllun Darparu
3 - Dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad
4 - Crynodeb dogfen Mesur Uchelgais Economaidd a Chymunedol
5 - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb